Trydan Gwyrdd Cymru

Ynni i ffynnu. Power to prosper.




© Hawlfraint y Goron / © Crown copyright (2022) Cymru Wales

# Gwefr – dy newyddion di a Trydan Gwyrdd Cymru

I bawb sy' wedi cymryd rhan yn **"TI'n Gyntaf"** Diolch yn fawr iawn.

**Rhwng Gorffennaf a Medi, 2024, cynhaliom arolwg rhyngweithiol a hygyrch. Rydym wedi bod yn astudio'r canlyniadau – dyma'n myfyrdodau cynnar ar eich atebion, syniadau a phryderon.**

Enw'r arolwg oedd **"TI'n gyntaf!"** oherwydd o'r dechrau, rydym eisiau deall beth sy'n bwysig i bobl yng Nghymru o ran y prosiectau ynni adnewyddadwy sydd eu hangen i bweru cymdeithas a goleuo ein bywydau.

Mae ein gwerthoedd yn llywio ein gwaith – mae cydweithio a chynnwys ystod eang o safbwyntiau yn allweddol i ganlyniadau gwell, mwy cynaliadwy. Bydd eich atebion yn helpu Trydan, a'n hunig gyfranddaliwr, Llywodraeth Cymru, deall eich uchelgeisiau ar:

- Cynyddu datblygiad ynni adnewyddadwy yng Nghymru
- Buddion y gall prosiectau ynni adnewyddadwy Trydan eu sicrhau
- Sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng darparu **cyllid cymunedol sy'n grymuso cymunedau** i gyflawni eu blaenoriaethau eu hunain, yn ogystal â sicrhau **buddion i Gymru gyfan**
- Sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cronfeydd sy'n **ymateb i heriau heddiw**, yn ogystal â buddsoddi i alluogi Cymru fynd i'r afael â **materion hirdymor** a darparu **etifeddiaeth gadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

# Y canlyniadau

**Bu mwy na 2,350 o bobl – bo'n ifanc ac yn hŷn, ac o bob rhan o Gymru - yng nghlwm wrth y fenter i ddeall amrywiaeth o safbwyntiau, syniadau a phryderon am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru.**

Nid pawb sy'n cytuno ar sut i wneud newidiadau addas i'n system ynni er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol. Edrychwn ymlaen at siarad â chi am sut y gall Trydan cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Gwelwch adroddiad cryno a gyfansoddwyd gan Give my View Ltd. cwmni annibynnol a gynhaliodd yr arolwg ar-lein.



**2,350**

**o bobl ledled Cymru wedi cymryd rhan**

**Oedran y bobl bu'n ymweld â'r arolwg ar eu ffôn, tabled neu liniadur**




Gofynnon ni:

## Beth sy'n bwysicaf i gwmnïau ynni adnewyddadwy ei gyflawni?

Cawsom ystod eang iawn o atebion i'r arolwg. Yn nhyb rai, mae tyrbinau gwynt yn "hyll" neu'n anghydweddol yn y dirwedd. Ac eto, mae llawer sy'n teimlo fel hyn hefyd yn cydnabod yr angen i Gymru cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, ac awgrymwyd gallai gwynt yn y môr, solar ar doeau ac egni llanw fod yn opsiynau da i'w hystyried.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r datblygiad o amrywiaeth o dechnolegau adnewyddadwy, ac yn sicr y dylid symud yn gyflym.

Prosiectau gwynt ar y tir ar raddfa fawr yw'r modd pris isaf i gynhyrchu symiau sylweddol o drydan. (Mae'n rhatach na nwy![1]) Gellir ei wireddu'n gyflym gyda'r dechnoleg sydd ar gael i ni yng Nghymru heddiw.

Yn gynnar yn 2025, byddwn yn rhoi gwybod i chi ym mha feysydd o Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru rydym am ganolbwyntio arnynt i ddatblygu prosiectau ynni gwynt. Byddwn yn gwrando ac yn gweithio gyda gofal, i ddatblygu prosiectau sy'n sensitif i gymunedau lleol a natur, a bydd yn darparu buddion parhaol i gymunedau cyfagos a Chymru gyfan.



### Pam datblygu mwy o ynni adnewyddadwy?

**Yn 2022[2], cynhyrchodd Cymru gyfanswm o 29TWh o drydan, a daeth 7.9 TWh ohono o ffynonellau ynni adnewyddadwy. Daeth 21.1 TWh – 73% – o danwydd ffosil!**

Wyddost ti, fod, **46% o'r ynni sy'n cael ei fwydo i'r grid cenedlaethol dros y DU yn dod o ffynonellau adnewyddadwy[3]** – gwynt ar y tir a gwynt yn y môr yn bennaf, a solar? Mae'r technolegau hyn yn gweithio! Dros tymor hir, maent hefyd yn helpu i sefydlogi a gostwng y gost o egni.

**Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed ar gyfer, i gynhyrchu'r hyn sy'n cyfateb i 100% o'n defnydd blynyddol o drydan o ynni adnewyddadwy yng Nghymru erbyn 2035.**


Erbyn 2035, disgwyliwn i drydan pweru lawer iawn mwy o'n bywyd a'n gwaith, na heddiw, megis gwresogi ein cartrefi a'n gweithleoedd, tanio ceir, bysiau, trenau, a phrosesau diwydiannol, yn hytrach na llosgi tanwyddau ffosil. Felly, mi fydd angen hyd yn oed mwy o drydan wedi ei gynhyrchu o ffynonellau carbon isel, i leihau allyriadau nwyau tŷ gwydr, sy'n niweidiol i'n hamgylchedd a'n iechyd.

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6556027d046ed400148b99fe/electricity-generation-costs-2023.pdf.

[2] www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-11/energy-generation-in-wales-2022.pdf Caiff adroddiad Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2023 ei gyhoeddi yn Aeaf 2024/25.

[3] www.gov.uk/government/statistics/digest-of-uk-energy-statistics-dukes-2024

Mae cyfran sylweddol o poblogaeth Cymru yn sylwi ffermydd gwynt ar y tir ac yn afrer gweldprosiectau ynni adnewyddadwy fel rhan o'u bywydau bob dydd.



Gofynnon ni:

**Ydych chi neu'ch cymuned wedi elwa o a cyllid yn deillio o brosiect ynni adnewyddadwy?**

Ymatebodd mwy na 2,000 o bobl i'r cwestiwn hwn. Cadarnhawyd 12%, eu bod wedi cael budd o gronfa gymunedol fferm wynt. Dywedodd 25% nad oeddent yn siŵra oedd eu cymunedau wedi elwa ai peidio.

Cawsom fewnwelediadau gwerthfawr i'r hyn yr ydych yn gwerthfawrogi am gronfeydd cymunedol, yn ogystal â'r hyn y credwch y gall weithio'n well. Byddwn yn cyfeirio at y gwersi a ddysgwyd a'r cyfleoedd ar gyfer gwelliant mewn sgyrsiau gyda chi yn y dyfodol.

Mae Trydan a Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan lawer, fod lle i wella mewn codi'r ymwybyddiaeth o gronfeydd cymunedol yng nghlwm wrth brosiectau ynni adnewyddadwy, yn ogystal â manteision positif eraill, gan gynnwys creu a chynnal swyddi a chyfleoedd i gyflenwyr.

Bydd hyn yn flaenoriaeth i Drydan. Mae hefyd yn bwysig arddangos gwaith gwych cymunedau i ddylanwadu a rheoli cyllid cymunedol i ddelifro canlyniadau cadarnhaol iawn yn eu hardaloedd lleol.



Fferm Wynt Pen y Cymoedd – Vattenfall

Mae Fferm Wynt Pen y Cymoedd wedi'i lleoli ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru, yn siroedd Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf. Mae'n cynhyrchu digon o drydan i bweru tua 15% o gartrefi Cymru bob blwyddyn. Ochr yn ochr â chynhyrchu ynni glân, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal gweithgareddau coedwigaeth, mae llawer o bartneriaid yn cydweithio ar gynllun cynefin 1500 hectar adfer mawn ar y safle. Mae ei gronfa gymunedol wedi cefnogi mwy na 700 o brosiectau - o fusnesau twristiaeth i glybiau chwaraeon, prosiectau natur i gynlluniau sy'n buddsoddi mewn sgiliau lleol.




O ddiwydiant i odro, o deithio i deledu, o ysgol i ofal, o iechyd i'r aelwyd, mae angen mwy o drydan gwyrdd arnom - ynni i ffynnu.

Gofynnon ni:

## Beth sy'n bwysicaf i gwmnïau ynni adnewyddadwy ei gyflawni?

**Ynni rhatach** gafodd y mwyafrif o bleidleisiau. Yn ail oedd, **Gweithredu ar natur a'r amgylchedd**, ac yna **gweithredu ar yr hinsawdd**, a **swyddi lleol**.



Bydd prosiectau Trydan yn ceisio cyflawni gwelliannau ym **mhob agwedd** o'r hyn a gynigwyd yn yr ymholiad, hyd yn oed un o'r rai lleiaf poblogaidd sef "elw ar gyfer cyfranddalwyr", a dyma pam:

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Trydan gyda ffocws masnachol – gall cwmni hyfyw, gyda phrosiectau effeithlon a gwych, darparu fwy o fuddion i economi, cymdeithas ac amgylchedd Cymru, dros y tymor hir.

Mae angen buddsoddiad sylweddol i greu gwerth drwy ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Unwaith y bydd yr holl gostau wedi'u tynnu, bydd yr **holl elw a gynhyrchir gan Drydan** yn cael ei wario ar **wasanaethau cyhoeddus** a diwallu **anghenion pobl Cymru**, fel y'u pennir gan ein cyfranddaliwr, Llywodraeth Cymru. **Dyma bwrpas Trydan**, darparu **ynni i ffynnu**.

Pan fyddwn yn dod i weithio gyda chymunedau, byddwn yn archwilio a gwrando ar flaenoriaethau lleol a theilwra ein hymdrechion yn unol â hynny. Ni fydd un arddull yn gweithio ym mhob man.

### Canlyniadau'r arolwg

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | **Ynni rhatach** | 1040 | **53%** |
|  | **Gweithredu natur a'r amgylchedd** | 898 | **46%** |
|  | **Gweithredu hinsawdd** | 618 | **31%** |
|  | **Swyddi lleol** | 530 | **27%** |
|  | **Cyllid cymunedol ymatebol** | 249 | **13%** |
|  | **Sgiliau ac addysg** | 223 | **11%** |
|  | **Elw i gyfranddalwyr** | 120 | **6%** |
|  | **Pobl wedi'u grymuso** | 96 | **5%** |

I'n rhoi ar ben ffordd, fe wnaethom ofyn:

**Wyt ti'n cytuno y dylid gwario elw trydan yn agos at brosiectau? A Wyt ti'n cytuno y dylid gwario elw trydan cyn gynted ag y bydd ar gael?**

Trwy **"TI'n gyntaf!"**, rydych chi wedi rhoi llyw cryf i ni: rhaid i weithgareddau Trydan **gyflawni i gymunedau sy'n lleol i'n prosiectau**. Nodwyd hefyd nad yw pawb yn byw yn rhywle lle mae'n bosibl datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, ac felly mae'n rhaid i Drydan helpu gyflwyno trawsnewid i ynni adnewyddadwy, teg a mwy cyfiawn trwy greu **buddion i Gymru gyfan**.

Dywedasoch wrthym eich bod am weld Trydan yn darparu **buddion cyn gynted â phosibl**. Mi fydd hyn yn helpu i gefnogi cymunedau gwydn, gyda chyfleoedd i bobl ifanc. Rdych hefyd am fuddsoddi mewn **dyfodol positif ar gyfer cenedlaethau sydd i ddod**. Helpu i gefnogi cymunedau gwydn, gyda chyfleoedd i bobl ifanc, a dyfodol positif ar gyfer cenedlaethau sydd i ddod.

Mae eich ymatebion yn dangos bod cefnogaeth gref gan y gymuned a dinasyddion i'n pwrpas.




Community caravan cafe.

Geiriau allweddol o'r mewnbwn cawsom gennych ynghylch pam y dylai cymunedau cyfagos gael buddion o brosiectau ynni adnewyddadwy cyfagos.




Gweler isod y diagram sy'n dangos sut rydym yn bwriadu gweithio i gyflawni ein pwrpas.

Mae adborth **TI'n gyntaf** yn ein calonogi eich bod chi'n cyd-fynd â'n cynnydd ar gamau 1 a 2.




O 2025, byddwn yn eich gwahodd i gael sgyrsiau mwy manwl gyda ni, am brosiectau datblygu fferm wynt ar y tir Trydan – **cam 3.**

**1 Pwrpas Strategol**

Wrth i ni ddechrau unrhyw ddatblygiad newydd gofynnwn i ni ein hunain: Beth all "ynni i ffynnu" ei olygu i bobl a natur yn yr ardal hon?

**2 Gwerth gorau o waith Trydan a buddsoddiadau'r prosiectau**

Byddwn yn gweithio gyda chontractwyr, pobl a sefydliadau , partneriaid darpariaeth lleol, a'r diwydiant ehangach i edrych ar sut y gallwn gyflawni mwy ac yn well gyda'n gilydd, gan gynnwys trwy'r broses gaffael.

**3 Datblygu dyluniad y prosiect**

Wrth siapio'r prosiect, fe wnawn ni weithio ar y dyluniad gorau ar gyfer yr ardal, ei phobl, natur, a Cymru ehangach. Byddwn yn ymchwilio'r hyn sydd eisoes yn hysbys am yr ardal. Wrth i'r prosiect ddatblygu, byddwn yn gweithio gyda chymunedau, rhanddeiliaid a phartneriaid i ddarparu prosiect llwyddiannus, sy'n cynnal ardal fwy llewyrchus. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i oresgyn unrhyw risgiau a gweithio'n gallach i greu cyfleoedd newydd.

**4 Cymeradwyaeth Cynllunio**

Mae angen i Drydan ddilyn yn union Yr un broses gynllunio ag unrhyw datblygwr. Fel y nodwyd uchod, mae llawer o gyfleoedd i bobl dweud eu dweud ar y prosiect cyn i ni gyflwyno ein cynlluniau i archwiliad a chymeradwyaeth.

**5 Adeiladu**

**6 Gweithredu (creu ynni)**

**7 Datgomisiynu**

Ni fyddwn yn cyrraedd camau 5, 6 a 7 am sawl blwyddyn eto, ond hyd yn oed nawr, gallwn fod yn fwy creadigol a chanolbwyntio ar sut rydym yn cael y gwerth gorau am a ardal leol, a Chymru gyfan o'n prosiectau. Mae'n rhan o'n pwrpas.





*"Mae'r tîm datblygu cyfan a minnau yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda cymunedau yng Nghymru o'r flwyddyn nesaf.*

*Byddwn yn eich holi am syniadau a chyfleoedd ar y cyd i gwneud i'n prosiectau gyflawni'r gwerth gorau i chi ac i Gymru gyfan.*

*Cadwch mewn cysylltiad!"*

**Simon Morgan**, Cyfarwyddwr Datblygu

Yn **"TI'n gyntaf"**, dywedodd llawer o bobl eu bod am ein cwrdd ym mherson.

**Ie os gwelwch yn dda!**

Byddwn yn trefnu cyfarfodydd a gweithdai wyneb yn wyneb, a byddwn yn ymuno â chi yn eich digwyddiadau lleol. Edrychwn ymlaen i weithio'n agosach gyda chi – trigolion, grwpiau a sefydliadau sydd eisoes yn byw ac yn gweithio, yn gofalu, a charu, y mannau gwyntog yn Nghymru, a all gynnal yr ynni gwyrdd sydd ei angen arnom ni i gyd.

I bobl yng Nghymru sydd am gymryd mwy o ran yn y Trawsnewid ynni, ond nad wyt ti'n byw yn agos i Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, lle rydym yn datblygu ein portffolio, byddwn yn gwneud mwy o ymgysylltu digidol, a drycha amdanom ni hefyd mewn digwyddiadau cenedlaethol, yn 2025.

**Welwn ni chi cyn bo hir.**

**Cyfarchion y tymor a dymunwn ddechrau gwych i chi i'r Flwyddyn Newydd!**

www.trydangwyrddcymru.wales
croeso@trydangwyrddcymru.wales

Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Trydan Gwyrdd Cymru is owned by the **Welsh Government**